aic CYMRU

agricultural industries confederation ®



# Llais diwydiant cyflenwi amaethyddol y DU

Cynhyrchiant | Amgylchedd | Cystadleurwydd

# Sut rydym yn cefnogi cadwyni cyflenwi bwyd y DU

**Mae Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC) yn cynrychioli busnesau mewn pum prif sector o fewn y cadwyni cyflenwi sy'n bwydo'r DU.**


Rydym yn cynrychioli'r busnesau sy'n cyflenwi ffermwyr y DU â'r bwyd anifeiliaid, gwrtaith, hadau, cynhyrchion diogelu cnydau a gwasanaethau cynghori sy'n hanfodol i gynhyrchu bwyd, ynghyd â chwmnïau sy'n masnachu cnydau a nwyddau amaethyddol yn fyd-eang.

Rydym yn bartner cydnabyddedig, gwybodus a dibynadwy ar gyfer llywodraethau, gweinidogion, gwleidyddion ar draws yr holl bleidiau, a gweision sifil. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac yn helpu i lunio polisi i greu dyfodol cynhyrchiol, cystadleuol a chynaliadwy ar gyfer cyflenwad bwyd y DU.

SGANIWCH Y COD QR I WYLIO FIDEO CRYNHOI >>



## CADWYN GYFLENWI BWYD Y DU




## MAE'R AIC YN CYNRYCHIOLI

**230** CWMNI | **£17BN** TROSIANT | **£2.5BN** ALLFORION



# Cynrychiolaeth ar draws y DU

Mae'r AIC yn llais ledled y DU ar gyfer y busnesau sy'n darparu'r cynhyrchion, y gwasanaethau a'r cynlluniau gwarantu masnach sy'n hanfodol ar gyfer cyflenwad diogel a chadarn o fwyd, diod a bwyd anifeiliaid ein gwlad.

Rydym yn meithrin cydberthnasau gwaith cydweithredol â llunwyr polisi ar draws y Senedd, Holyrood, Stormont, a San Steffan. Mae ein tîm polisi'n gweithio'n adeiladol gyda chyrff a sefydliadau masnach eraill sy'n cynrychioli system fwyd gyfan y DU – o gyflenwyr cyn y fferm a ffermwyr, i broseswyr a manwerthwyr.






# Ymgysylltu â'r UE

Rydym yn aelodau gweithgar o gymdeithasau masnach Ewropeaidd dylanwadol, ac yn dilyn materion polisi Ewropeaidd a rhyngwladol yn agos. Mae'r AIC yn eistedd ar fyrddau cymdeithasau canlynol yr UE. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â sefydliadau ledled y byd.

**Coceral** - y gymdeithas fasnach Ewropeaidd o ran grawnfwydydd, hadau olew, reis, codlysiau, olew olewydd, olewau a brasterau, bwyd anifeiliaid a chyflenwadau amaethyddol

**EFBA** - Cymdeithas Cymysgwyr Gwrtaith Ewrop sy'n cynrychioli busnesau sy'n cynhyrchu gwrteithiau cymysg cyfansawdd

**Euroseeds** - yn cynrychioli busnesau'r sector hadau yn Ewrop sy'n ymchwilio, yn bridio, yn cynhyrchu ac yn marchnata hadau planhigion amaethyddol, garddwriaethol ac addurniadol


**FEFAC** - y Ffederasiwn Gwneuthurwyr Bwyd Anifeiliaid Ewropeaidd, sy'n cynrychioli'r diwydiant bwyd anifeiliaid ac ychwanegion maethynnau cyfansawdd

# Y prif gysylltiadau



**Robert Sheasby**
Y Prif Weithredwr

robert.sheasby@agindustries.org.uk
07741 732525



**Ed Barker**
Y Pennaeth Polisi a Materion Allanol

ed.barker@agindustries.org.uk
07507 566099



**Ian Muirhead**
AIC Scotland Y Rheolwr Polisi

ian.muirhead@agindustries.org.uk
07741 734026



**Michael Muncey**
AIC Cymru Y Rheolwr Polisi

michael.muncey@agindustries.org.uk
07785 518037



**David Garrett**
Y Prif Weithredwr Dros Dro, Northern Ireland Grain Trade Association (NIGTA)

david.garrett@nigta.co.uk
07770 632124

aic CYMRU
agricultural industries confederation ®

Agricultural Industries Confederation Limited
First Floor, Unit 4 The Forum, Minerva Business Park, Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT T: 01733 385230

agindustries.org.uk